



ERW

Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

Ysgolion Dysgu Proffesiynol



Cyflwyniad

Bydd ERW yn codi capasiti ysgolion trwy gefnogi, herio ac ymyrryd er mwyn iddynt ddod yn sefydliadau sy'n hunanwella, sy'n gadarn, ac sy'n gwella deilliannau i ddysgwyr yn barhaus.

Yng ngoleuni adolygiad Donaldson o'r cwricwlwm ac wrth i rôl technoleg mewn pedagogeg ddod yn gynyddol hanfodol, mae ERW wedi ymrwymo i arwain hinsawdd sy'n newid mewn addysg. Mae cynyddu ein cymhwysedd digidol ledled pob maes cyflawni yn allweddol i sicrhau gweithio mwy effeithlon ac effeithiol.

Bydd cefnogi a chyflawni Bargen Newydd y Gweinidog i roi cefnogaeth i athrawon ac arweinwyr ysgolion yn plethu â'n gwaith ar wella addysgu. Bydd ERW yn cefnogi athrawon i ymdrechu i ragori ac mewn perthynas â meysydd gwaith newydd a newidiadau i'r cwricwlwm. Mae gwybodaeth yn awgrymu bod mwyafrif yr athrawon yn ERW yn dda, ac yn addysgu'n dda yn gyson. Bydd athrawon ac arweinwyr yn parhau i gael eu cefnogi a'u herio i fod yn gyson dda ac yn well.

O fis Medi 2015, bydd y strategaeth ranbarthol ar gyfer system hunanwella yn cael ei gweithredu. Bydd hon yn adeiladu ar waith sydd ar y gweill i gryfhau'r gefnogaeth rhwng ysgolion a gwaith ysgol i ysgol. Bydd hyn yn dynodi cam allweddol ymlaen yng ngwaith y rhanbarth tuag at system hunanwella.

Roedd y Gweinidog wedi amlinellu'n eglur ei weledigaeth a'i heriau allweddol ar gyfer Cymru yn Cymwys am Oes. Mae'r rhain yn fwyfwy perthnasol wrth i ni ymateb yn gadarnhaol i argymhellion Furlong a Donaldson, ac wrth i ni barhau i gefnogi ac ymgysylltu yn y gwaith o weithredu polisiâu allweddol y llywodraeth.

Bydd ERW yn rhoi cymorth i'r gweithlu rhanbarthol i adennill hyder mewn addysgu fel proffesiwn, a hynny trwy gefnogaeth a her effeithiol; yn codi capasiti arwain o'r tu mewn allan ac yn cydweithio i elwa ar gryfderau'r rhanbarth er mwyn rhannu hyn â'n gilydd; yn ceisio am gwricwlwm cyfoethog a fydd â deilliannau gwerthfawr i bawb, ac yn ei ddatblygu. Bydd y darlun hwn yn newid wrth i'r Gweinidog ystyried ei ymateb i adolygiadau diweddar, ond mae ERW yn parhau'n ymrwymedig i newid ar gyfer gwelliant mewn pedagogeg ac arweinyddiaeth.

Fel un o'r prif linyddau yn y gwaith o ymateb i'r heriau sylweddol hyn, mae ERW wedi ymrwmo i ymgysylltu Penaethiaid yn y gwaith o ddatblygu Ysgolion Dysgu Proffesiynol mewn amrediad eang o feysydd yn ymwneud â gwella ysgolion, arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol.

Erbyn 2018, rhagwelir y bydd nifer sylweddol o ysgolion uwchradd, cynradd ac arbennig ledled ERW yn cael eu pennu fel Ysgolion Dysgu Proffesiynol ar gyfer o leiaf un agwedd bwysig ar eu gwaith.

- Bydd yr ysgolion hyn wedi cael eu categorio fel rhai Gwyrdd neu Felyn trwy'r System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion (Oren o bosibl ar gyfer llinyddau penodol)
- Bydd ganddynt hanes blaenorol rhagorol o hunanwella parhaol, partneriaeth effeithiol wrth weithio gyda chlwstwr o ysgolion, teulu o ysgolion neu ysgolion eraill a/neu ddarparwyr allanol (megis PCYDDS), a byddant yn canolbwyntio ar gefnogi gwella ysgolion a dysgu proffesiynol.
- Bydd Adroddiad Hunanarfarnu/Cynllun Gwella'r ysgol neu adroddiad Estyn eisoes yn darparu tystiolaeth i bennu'r arfer ragorol
- Bydd ysgolion yn gallu cael arian rhanbarthol i gydweithio â'r Awdurdod Lleol, ERW, Llywodraeth Cymru a/neu ddarparwyr allanol (PCYDDS) i sicrhau statws Ysgolion Dysgu Proffesiynol trwy ddod yn ganolfannau arfer ragorol a thrwy ddatblygu ac arwain modelau o arfer dda
- Byddir yn canolbwyntio ar ffurfio ac arwain partneriaethau effeithiol gydag ysgolion sy'n tanberfformio er mwyn ysgogi gwelliannau ysgol gyfan/mewn meysydd penodol neu er mwyn rhannu rhaglenni dysgu proffesiynol mewn pedagogeg a/neu arweinyddiaeth.
- Bydd Ysgolion Dysgu Proffesiynol yn cyfrannu at gefnogi model rhanbarthol ar gyfer hunanwella, lle bydd cefnogaeth ysgol i ysgol yn ganolbwynt allweddol.
- Er mwyn cael unrhyw arian posibl, bydd ysgolion yn darparu dogfennaeth briodol i ddibenion archwilio ac yn ymrwmo i gydweithio â'r Awdurdod Lleol, ERW, Llywodraeth Cymru a/neu ddarparwyr allanol (PCYDDS) i ddatblygu modelau rhagorol o arfer a fydd yn gyson ar draws cyfnodau a'r rhanbarth
- Ni cheir proses geisiadau am arian yn ystod cyfnod cychwynnol y gweithredu ac ni fydd angen chwaith i ysgolion neilltuo cyfnodau sylweddol o amser ar gyfer gwneud cais am arian. Dylai'r ddogfennaeth sy'n ofynnol gan ERW fod yn yr ysgol eisoes
- Yn dibynnu ar y ffynhonnell, gallai arian ar ôl 2015 gael ei ddyrannu trwy broses gais, yn unol â disgywiliadau Llywodraeth Cymru neu ddisgywiliadau rhanbarthol

- Gallai gwybodaeth sy'n ofynnol gan ERW neu Lywodraeth Cymru gynnwys:
 - Enw a dynodiad y prif uwch-aelod o staff sy'n goruchwyllo'r agwedd benodol ar wella ysgol a/neu ddysgu proffesiynol
 - Enwau a dynodiadau staff eraill a fydd â chyfrifoldeb penodol am y maes gwella ysgol a/neu ddysgu proffesiynol ar draws yr ysgol, ynghyd â'u maes cwricwlwm, eu tîm blwyddyn neu eu cyfnod
 - Yr amlinelliad ar gyfer strategaeth gwella ysgol a/neu raglen dysgu proffesiynol yr ysgol, ynghyd â gwybodaeth am yr elfennau allweddol y mae'r ysgol yn eu hystyried yn arfer dda yn y sector ac y gellir eu rhannu ag ysgolion eraill fel rhan o'r ymrwymiad
 - Tystiolaeth fod yr ysgol wedi ymrwymo i gydweithio/rannu strategaethau gwella ysgolion a/neu arfer dysgu proffesiynol ragorol ag ysgolion ledled y rhanbarth
 - Adroddiad Hunanarfarnu neu Gynllun Gwella'r ysgol neu adroddiad Estyn diweddar sy'n pennu'n eglur y meysydd rhagorol penodol a briodolir i statws Ysgolion Dysgu Proffesiynol
- Bydd yr arian sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio i ganiatáu i'r Pennaeth a staff allweddol eraill:
 - Ymrwymo i fynychu cyfarfodydd rheolaidd er mwyn monitro, gwerthuso ac adolygu arferion wrth ddatblygu'r model rhanbarthol o arfer dda ar gyfer Ysgolion Dysgu Proffesiynol
 - Cael mwy o adnoddau er mwyn sicrhau cymorth ysgol i ysgol rhanbarthol effeithiol, uchel ei safon, a/neu er mwyn gwella a rhannu rhaglenni dysgu proffesiynol
 - Datblygu mwy ar strategaethau a rhaglenni i wella'r arfer ragorol sydd eisoes yn bodoli
 - Rhannu'r arfer ragorol ag ysgolion eraill ar hyd a lled yr Awdurdod Lleol/yr Hwb/y Rhanbarth
 - Cynllunio ar gyfer HMS a'i ddarparu i ysgolion yr Awdurdod Lleol ac ar hyd a lled yr Hwb/y Rhanbarth
 - Darparu adroddiadau cynnydd ac adroddiad terfynol i'r Awdurdod Lleol, ERW, Llywodraeth Cymru, fel y bo'n briodol, er mwyn amlinellu llwyddiant y prosiect gwella neu'r rhaglen dysgu proffesiynol, sut y mae wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr, a sut y mae wedi cael ei r(h)annu ledled yr Awdurdod Lleol/yr Hwb/y rhanbarth
 - Ysgrifennu Astudiaeth Achos ar arfer ragorol fel Ysgol Dysgu Proffesiynol a chanolfan rhagoriaeth ranbarthol

Ysgolion Dysgu Proffesiynol

Meini prawf sylfaenol disgwylidig:

1. Disgwyliadau ar gyfer Gwelliant o leiaf yn 'Da' (ESTYN, os yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf)
2. Arweinyddiaeth, Gwella Ansawdd ac Addysgu o leiaf yn 'Da' (ESTYN, os yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf)
3. Fel arfer, bydd yr ysgol yn cael ei dynodi'n Wyrdd neu'n Felyn ym model Categoriiddio Ysgolion Llywodraeth Cymru (o 2016 ymlaen: Gwyrdd neu Felyn am o leiaf 2 flynedd). Efallai y bydd yna feysydd penodol ar gyfer datblygu lle gall ysgolion oren fod yn briodol
4. Gweithredu strategaethau gwella ysgolion a/neu raglenni dysgu proffesiynol effeithiol yn llwyddiannus am o leiaf y ddwy flynedd ddiwethaf
5. Uwch-aelodau dynodedig o staff i arwain, cydlynu a gweithredu'r strategaethau gwella ysgol neu'r rhaglenni dysgu proffesiynol penodol
6. Bydd yr ysgol yn pennu arfer dda mewn un neu fwy o feysydd strategol allweddol, fel y'u pennir gan Lywodraeth Cymru, ERW, yr Awdurdod Lleol neu PCYDDS
7. Bydd dogfennaeth yr ysgol (Adroddiad Hunanwerthuso a/neu'r Rhaglen Gwella Ysgol) yn pennu'n eglur y deilliannau disgwylidig ar gyfer y strategaethau gwella ysgol neu'r rhaglenni dysgu proffesiynol penodol
8. Ymgysylltu da â Dysgu a Gyfoethogir gan Dechnoleg neu fwriad strategol i wneud hynny (mae hyn yn ddymunol ond nid yn hanfodol, a dylai gael ei bennu yn yr Adroddiad Hunanwerthuso a/neu'r Rhaglen Gwella Ysgol)
9. Ymrwymiad i ymgysylltu â'r Awdurdod Lleol, y Rhanbarth, Llywodraeth Cymru a/neu ddarparwyr allanol wrth ddefnyddio ymchwil a datblygiad priodol i ysgogi gwelliant yn yr ysgol

Ymrwymiad yr Ysgol:

1. Ymrwymo i fod yn Ysgol Dysgu Proffesiynol am o leiaf dair blynedd
2. Neilltuo amser staff ac adnoddau i ymrwymiad yr Ysgolion Dysgu Proffesiynol gan ddefnyddio arian ERW
3. Cytuno i gyflawni'r cyfrifoldebau a'r disgwyliadau amlinellol ar gyfer Ysgolion Dysgu Proffesiynol
4. Dod yn rhan o'r bartneriaeth weithio gyda'r Awdurdod Lleol, ERW, Llywodraeth Cymru neu ddarparwr allanol priodol (PCYDDS) wrth ddatblygu'r meini prawf, y model a'r strategaeth ar gyfer gweithredu Ysgolion Dysgu Proffesiynol llwyddiannus ar raddfa ehangach

5. Rhannu arfer orau, o ran datblygu pob gweithiwr proffesiynol, ag ysgolion a sefydliadau addysgol eraill, gan ddefnyddio'r holl dechnoleg sydd ar gael
6. Cynnig yr ysgol fel canolfan arfer ragorol ar gyfer gwella ysgol a/neu ddysgu proffesiynol, lle gall cydweithwyr yn yr ysgol honno a'r tu allan iddi ymgysylltu ag arfer orau a strategaethau gwella ysgol a/neu gyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol

Ymrwymiad ERW:

1. Gweithio mewn partneriaeth agos ag Ysgolion Dysgu Proffesiynol i gefnogi eu hymrwymiad i wella ysgolion a/neu ddysgu proffesiynol, ac i neilltuo adnoddau ac amser staff priodol ar gyfer menter y rhanbarth
2. Cydlynu a chefnogi'r datblygiadau arfaethedig ag amser staff ac arian ychwanegol pan fo hynny'n bosibl
3. Cefnogi partneriaid allanol (PCYDDS) mewn perthynas â gweithredu modelau gwella ysgolion, a chydlynu'r gwaith o ddatblygu Ysgolion Dysgu Proffesiynol
4. Cyfrannu at bennu, monitro, gwerthuso ac adolygu arfer orau

Ymrwymiad PCYDDS (ar gyfer pob Dysgu Proffesiynol):

1. Gweithio mewn partneriaeth agos ag Ysgolion Dysgu Proffesiynol er mwyn cefnogi eu hymrwymiad ac i neilltuo amser staff/adnoddau priodol ar gyfer hyn
2. Ymrwymo i wireddu cynigion arfaethedig ar gyfer lleoliadau HAGA ac unrhyw ddysgu proffesiynol arall, pan fo hynny'n bosibl
3. Arwain yn y gwaith o ddatblygu meini prawf a phartneriaethau ag ysgolion, a darparu modelau hyfforddi i gefnogi'r gwaith o ddatblygu athrawon ac arweinyddiaeth
4. Cefnogi'r gwaith o rannu arfer orau gan ddefnyddio pob technoleg sydd ar gael; er enghraifft, trwy neilltuo arbenigedd staff ar gyfer cofnodi, golygu, storio a rhannu ffeiliau fideo
5. Rhannu elfennau a bennwyd o arfer orau yn gyson mewn addysg gychwynnol i athrawon ac mewn rhaglenni dysgu proffesiynol, a hynny ar bob lefel o arweinyddiaeth

Cyfrifoldebau a disgwyliadau amlinellol ar gyfer Ysgolion Dysgu Proffesiynol yn ERW

1. Hunanwerthuso cryfderau'r ysgol er mwyn sicrhau bod arfer gwella ysgol a/neu ddysgu proffesiynol ragorol wedi'i phennu'n eglur
2. Sicrhau bod pob athro'n ymwybodol o'r arfer ragorol a bennwyd; ymgymryd â thrafodaeth a myfyrio manwl â chydweithwyr yn yr ysgol er mwyn sicrhau y gall yr arfer ragorol hon gael ei rhannu'n effeithiol gan y cydweithwyr priodol o'r ysgol
3. Mewn perthynas â'r arfer ragorol a bennwyd, cynllunio a darparu profiadau a gweithgareddau dysgu proffesiynol o safon uchel yn yr ysgol, sy'n ymgysylltu ac yn uwchsgilio athrawon yn effeithiol
4. Bod â mwy o ran mewn gwella ysgolion a/neu ddysgu proffesiynol ledled y rhanbarth trwy gefnogi ysgolion eraill i sicrhau gwell deilliannau dysgu a datblygiad proffesiynol a datblygiad mewn arweinyddiaeth ar gyfer athrawon, trwy wella safon eu gwaith eu hunain
5. Sicrhau bod pob arweinydd strategaethau gwella ysgol a/neu fentoriaid ar gyfer rhaglenni dysgu proffesiynol yn yr ysgol yn darparu tiwtora, hyfforddiant a mentora o safon uchel, gan gynnwys darparu cymorth effeithiol sy'n gysylltiedig â rhannu arfer orau ledled y rhanbarth
6. Asesu effaith yr arfer ragorol a bennwyd ar wella ysgol a/neu ddysgu proffesiynol ochr yn ochr â deilliannau disgybl ac arferion athrawon priodol
7. Dangos ymrwymiad a chapasiti clir i ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol o ran gwella ysgol a/neu ddysgu proffesiynol
8. Gwneud ymrwymiad ag ERW (a PCYDDS ar gyfer Dysgu Proffesiynol) fel Ysgol Dysgu Proffesiynol a chanolfan rhagoriaeth, i sicrhau bod gwella ysgol a/neu ddysgu proffesiynol yn cael ei gyflawni, gan gynnwys darparu cyfleoedd ar gyfer profiad sylweddol mewn ysgolion i gydweithwyr sydd â diddordeb mewn datblygu fel athrawon neu arweinwyr
9. Rheoli ac arwain ar wella ysgol a/neu ddysgu proffesiynol trwy sicrhau cynllunio ar y cyd fel bod ysgolion, ERW (a PCYDDS) yn amlhau i'r eithaf y gwaith o integreiddio gwelliannau yn yr ysgol a'r ganolfan, ynghyd â phennu pa bartneriaid sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu agweddau allweddol ar ddatblygu athrawon/arweinwyr ar bob lefel
10. Gweithio gydag ERW (a PCYDDS) mewn perthynas â phennu arfer a/neu ddysgu proffesiynol rhagorol ar gyfer yr ysgolion, yr arweinwyr a'r athrawon sydd â'r potensial i fod yn rhagorol yn y dyfodol

Agweddau ar ragoriaeth ar gyfer Ysgolion Dysgu Proffesiynol yn ERW

Dyma rai enghreifftiau o agweddau a allai fod yn ganolbwynt ar gyfer Ysgolion Dysgu Proffesiynol fel canolfannau arfer ragorol rhanbarthol:

- Cau'r bwloch o ran cyrhaeddiad (defnyddio arian y Grant Amddifadedd Disgyblion)
- Perfformiad disgyblion Mwy Abl a Dawnus
- Defnyddio data'n effeithiol i wella safonau cyflawniad
- Sefydlu myfyrwyr HAGA
- Darparu pedagogeg ragorol
- Gweithredu'r Rhaglen Athrawon Rhagorol (datblygu'r ITP)
- Rhaglenni Dysgu Proffesiynol ar gyfer darpar arweinwyr ar bob lefel
- Ysgolion Dibynadwy lawn o ran lleihau Amrywiad yn yr Ysgol ledled y rhanbarth
- Creu cwricwlwm newydd ac effeithiol (gweithredu ar adolygiad Donaldson)
- Datblygu Llythrennedd Digidol
- Rheoli ymddygiad
- Gweithredu strategaethau i wella presenoldeb
- Datblygu sgiliau iaith a sgiliau dwyieithog
- Rhannu strategaethau Sicrhau Ansawdd rhagorol ac effeithiol
- Prosesau Rheoli Perfformiad effeithiol

Troednodyn:

Tra bo'r ddogfen strategaeth gyffredinol amlinellol hon yn pennu'r meysydd allweddol ar gyfer Ysgolion Dysgu Proffesiynol, mae'n debygol y bydd yna bwyntiau allweddol ychwanegol yn cael eu cytuno mewn perthynas â'r agwedd benodol ar ragoriaeth ar gyfer ysgolion unigol neu grwpiau o ysgolion. Bydd y rhain yn cael eu pennu gan yr Ysgolion Dysgu Proffesiynol eu hunain mewn cydweithrediad ag ERW (PCYDDS) ar ddechrau'r broses